Cylchlythyr #4: Gwanwyn 2021

Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Pencampwyr Rhywogaethau

Aelodau'r Senedd yn codi llais dros rywogaethau sydd dan fygythiad ac mewn perygl

Ai 2021 fydd y flwyddyn y byddwn yn achub rhywogaethau o dan fygythiad ledled y blaned?

Mae'r wiber ddirgel, y pâl llawn cymeriad a'r pathew i gyd yn rhywogaethau eiconig i Gymru ac mae Cyswllt Amgylchedd Cymru (y Cyswllt) yn wir ddiolchgar i bob Pencampwr Rhywogaethau am gefnogi bywyd gwyllt Cymru. Does gan fyd natur ddim terfynau ac, mae'n amlwg, mae ein bywyd gwyllt yma yng Nghymru yn rhan o ecosystem sy'n gysylltiedig ledled y byd. Felly, os ydym am warchod ein rhywogaethau eiconig yn effeithiol, mae angen i Lywodraethau ledled y byd gytuno i gefnogi bywyd gwyllt. Dyna'n union beth yr ydym yn gobeithio fydd yn digwydd yn y Gynhadledd ar Amrywiaeth Fiolegol (CAF) yn Kunming yn Tsieina, sy'n cael ei chynllunio ar gyfer yr hydref hwn.

Rydym yn gobeithio y bydd y gynhadledd hon yn cyflawni dros fioamrywiaeth yr hyn y mae Cytundeb Paris yn ei gyflawni dros yr hinsawdd fyd-eang. Er bod unrhyw lywodraeth cenedlaethol yn gallu gweithredu i warchod bywyd gwyllt o fewn ei ffiniau ei hun, ni fydd pethau'n debygol o newid ar lefel ryngwladol nes bydd llywodraethau mwyaf grymus y byd yn ymrwymo i weithredu, gydag addewidion i ymgymryd â monitro, gwerthuso, adrodd a gwirio.

Dyna beth yr ydym yn gobeithio fydd yn digwydd yn Kunming ac mae Llywodraeth y DU yn awyddus i chwarae rôl allweddol; ond i sicrhau y bydd hynny'n digwydd, **bydd angen iddyn nhw ddangos bod y bedair cenedl wedi ymrwymo i'r mathau o dargedau y maen nhw'n dymuno i eraill eu mabwysiadu.** Cred y Cyswllt bod angen i ni gefnogi'r egwyddor o darged byd-eang i adfer bioamrywiaeth mewn deddf cartref os ydym o ddifrif am warchod bywyd gwyllt sydd o dan fygythiad yng Nghymru.

Y newyddion da yw bod Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, eisoes wedi arwyddo 'Datganiad Caeredin', sy'n ei gwneud yn glir pa mor barod yw llawer o lywodraethau is-genedlaethol i chwarae rhan lawn yn y gweithredu byd-eang i warchod a gwella bioamrywiaeth. **Hefyd, mae Lesley Griffiths wedi siarad yn bositif am y syniad o sefydlu targedau bioamrywiaeth statudol yn y Senedd.** Felly gwyliwch y gofod hwn! Mae'r Cyswllt yn diolch i bob un o'i Bencampwyr Rhywogaethau am amlygu trafferthion byd natur yn gyson a gofynnwn i bob AC o bob plaid i ystyried cefnogi targedau byd natur statudol ar gyfer byd natur Cymru.

Pwy yw Pencampwyr Rhywogaethau'r Senedd?

Gwiber - Hefin David
Môr-wennol y gogledd - Hannah Blythyn
Onnen - David Melding
Pâl - Paul Davies
Yr eog - David Rees
Cacynnen y llus - Leanne Wood
Chwilen olew ddu - Rebecca Evans
Dolffin trwyn potel - Joyce Watson
Y brithyll- Kirsty Williams
Brân goesgoch - Rhun ap Iorwerth
Llyffant dafadennog - Jeremy Miles
Gylfinir - Mark Isherwood
Pathew - Llŷr Gruffydd
Llysywen Ewropeaidd - Dawn Bowden
Corryn rafft y ffen - Caroline Jones
Misglen befriog yr afon - Nick Ramsay
Ystlum pedol mwyaf - Angela Burns
Morlo llwyd - Dai Lloyd
Llamhidydd - Janet Finch-Saunders
Draenog - Lee Waters
Britheg frown - Jane Hutt
Llyngyren ddiliau - Siân Gwenllian
Cornchwiglen - Huw Irranca-Davies
Ystlum pedol lleiaf - Suzy Davies
Wystrys brodorol - Julie James
Troellwr mawr - Vikki Howells
Britheg berlog - Russell George
Bele - Eluned Morgan
Gwiwer - Darren Millar
Pibydd coesgoch - Jack Sargeant
Y siwin - Elin Jones
Hwyaden yr eithin - Jayne Bryant
Gardwenynen feinlais - Delyth Jewell
Glesyn bach - Mike Hedges
Migwyn - Alun Davies
Gwennol ddu - Jenny Rathbone
Llinos y mynydd - Siân Gwenllian
Llygoden bengron y dŵr - John Griffiths
Madarch cap cwyr - Julie Morgan
Cennin pedr Cymreig - Vaughan Gething
Bras melyn - Andrew RT Davies

Cyfranwyr: Rory Francis, WEL; Emily Williams, RSPB; Billie-Jade Thomas, MCS; Kate Rees, National Trust; Jenny Hawley, Plantlife.
Tynwyr lluniau: Tree - Llz Smith; Bat - Dulcie Fairweather; GBBC - MCS; PPE litter - Natasha Ewins; Snowdon river - National Trust & Natural Resources Wales.







Pam fod angen Strategaeth Adfer Adar Môr ar Gymru

Mae Cymru'n gyfrifol am boblogaethau sylweddol o adar môr: rydym yn cynnal dros hanner adar drycin Manaw y byd ac yma mae nythfa huganod bedwaredd fwyaf y byd! Mae rhai poblogaethau o adar môr a geir yma, fel pâl yr Atlantig, hefyd yn cynyddu wedi prinhad hanesyddol, hyd yn oed ar ôl wynebu difodiant potensial ledled y byd. **Mae'n amlwg fod gan Gymru rôl ganolog mewn cadwraeth adar môr.**

Er bod rhai rhywogaethau'n llwyddo mwy yma na mewn mannau eraill, mae'r darlun drwyddo draw yn peri pryder. Mae rhai rhywogaethau o adar môr wedi prinhau'n ddifrifol yma, yn cynnwys gwylanod coesddu sy'n magu; maen nhw wedi prinhau o 35% ers 1986. Hefyd, mae adar môr eraill (y fôr-wennol fechan a'r fôr-wennol bigddu) yn gyfyngedig i ddim ond un nythfa yng Nghymru. Dengys gwerthusiad diweddar bod llywodraethau, ledled y DU, **wedi sicrhau'r cynnydd lleiaf o ran gwarchod adar môr** (o'i gymharu â chynnydd wrth warchod agweddau eraill o'r amgylchedd morol).

Mae adar môr yn wynebu peryglon lu. Yn eu mysg mae effeithiau newid hinsawdd; cael eu dal mewn plastig ac offer pysgota; afl onyddu; ysglyfaethwyr yn eu mannau nythu; datblygiad morol wedi ei leoli'n amhriodol; a cholli cynefi n. Wrth edrych tua'r dyfodol, mae llawer o'r bygythiadau hyn yn debygol o gynyddu. Er enghraifft, mae datblygiad (megis ynni adnewyddadwy) yn debygol o gynyddu'n arwyddocaol yn nyfroedd Cymru. Mae angen cynllunio hyn yn ofalus i sicrhau bod mannau sensitif ar gyfer adar môr a bywyd gwyllt arall yn cael eu gwarchod. Byddai cynllun datblygu morol yn un ffordd o wneud hyn. Fodd bynnag, mae angen gweithredu hefyd i fynd i'r afael â statws presennol adar môr a hybu eu gwytnwch, yn ogystal â rhwystro prinhad pellach.

Mae'n amlwg y bydd angen gweithredu eang ac ar frys arnom os ydym am ddod â phrinhad adar môr i ben. **Credwn bod angen Strategaeth Adfer Adar Môr Cymru, gyda chynllun gweithredu cysylltiedig sy'n cael ei ariannu, i ganolbwyntio ymdrechion a sicrhau ein bod yn rhoi hwb i'w gwytnwch yn wyneb bygythiadau cynyddol.** Diolchwn i bob un o'n Pencampwyr adar môr am gydweithio gyda ni ac am gefnogi'r syniad hwn, gobeithio.

Ewch i weld ystlum newydd y Ganolfan Dechnoleg Amgen!

Ym mis Rhagfyr, roedd yn syndod i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ddarganfod ystlum pedol mwyaf yn gaeafgysgu mewn ystafell reoli cynhesu nad oedd yn cael ei defnyddio; roedd wedi ymuno ag ystlumod pedol lleiaf a oedd wedi symud yno ac rydym yn eu croesawu yn fawr! Darllenwch fwy am eu preswylwyr rhyfeddol sy'n hedfan yma.

Ystlum pedol lleiaf yn y Ganolfan




Offer gwarchodaeth bersonol ymysg eitemau plastig sy'n peri problem ar draethau Cymru yn ystod Glanhau Traethau



Er gwaethaf heriau parhaol Covid-19, cynhaliwyd y digwyddiad Glanhau Traethau Prydain Cymdeithas Gwarchod y Môr yn yr hydref, gan ddangos effaith barhaol plastig un-defnydd ar ein glannau.

Cyhoeddwyd canlyniadau'r GTP tua diwedd 2020, yn dangos bod 237.5 eitem o sbwriel ar gyfartaledd wedi eu canfod ar bob 100m o lannau Cymru. Ymysg yr eitemau mwyaf cyffredin y cafwyd hyd iddyn nhw ar ein traethau roedd: darnau cymysg o blastig a pholystyren; llinyn; topiau poteli a chaeadau; pecynnau melysion, creision a brechdanau; a bonion sigarets. Yn peri pryder oedd y ffaith bod sbwriel ar ffurf offer gwarchodaeth bersonol – megis mygydau a menig tafladwy – hefyd yn bresennol ar bron i 30% o'r traethau a lanhawyd yn ystod y digwyddiad ledled y DU.

Diolch i waith 143 o wirfoddolwyr, glanhawyd ac arolygwyd dros 3,000m o draethau Cymru yn ystod 32 digwyddiad fel rhan o lanhau cyntaf yr elusen i barhau wythnos. Roedd Mark Drakeford, Janet Finch-Saunders a Llŷr Gruffydd AC ymysg y sawl a fu'n cymryd rhan yn y project gwyddoniaeth dinasyddion blynyddol ac rydym yn hynod o ddiolchgar iddyn nhw am eu cefnogaeth. Gofynnwyd i wirfoddolwyr gofnodi eitemau o offer gwarchodaeth bersonol am y tro cyntaf, a chafwyd hyd i nifer oedd yn peri cryn bryder. Meddai Lizzie Prior, Cydlynydd: "*Fel llawer o eitemau un-defnydd eraill, mae mygydau a menig y gellir eu taflu yn peri bygythiad i fywyd gwyllt ar dir ac ar y môr. Fe all anifeiliaid morol ddrysu mygydau a menig am eu hysglyfaeth, a llenwi eu stumogau gyda deunyddiau na fyddan nhw'n pydru nac yn diflannu ac a fydd, o bosib, yn eu lladd. Mae anifeiliaid hefyd mewn perygl o gael eu dal yn strapiau mygydau wyneb, a gwelwyd lluniau'n ddiweddar o adar môr gyda llinyn elastig wedi ei lapio o amgylch eu traed*".





Cefnogir Glanhau Traethau Prydain gan chwaraewyr Loteri Cod Post y Bobl ac fe'i cynhaliwyd ers dros 27 mlynedd. Addaswyd digwyddiad eleni i sicrhau diogelwch pawb oedd yn cymryd rhan oherwydd y pandemig, gyda digwyddiadau glanhau llai'n cymryd lle digwyddiadau enfawr.

Adfer afon yng nghysgod Yr Wyddfa



Mae gwaith adfer afon wedi bod yn digwydd yn Eryri fel rhan o Broject Dalgylch Uchaf y Conwy er mwyn creu amgylchedd mwy iach, mwy glân, a gwydn. Mae rhan ddiweddaraf y project ar raddfa'r dalgylch rhwng yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi canolbwyntio ar Nant y Gwryd, afon yng nghysgod mynydd uchaf Cymru, Yr Wyddfa.

Ym mis Medi, cychwynnwyd ar y gwaith o ail-lunio'r llethrau serth ac ail-osod rhai cerrig mawr mewn adran o'r afon a oedd wedi ei newid yn flaenorol fel ei bod yn llifo'n naturiol ac i helpu i wella cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae newidiadau i'w gweld eisoes, gyda'r afon yn symud o lif uniongyrchol (fel camlas) i ddatblygu adrannau o byllau (dŵr dwfn) a chrychdonnau (rhannau sy'n llifo'n gyflym), gyda heigiau graean yn ffurfio o amgylch y cerrig mawr. Mae hyn yn creu mwy o amrywiaeth o nodweddion o fewn yr afon ac yn gwella'r cynefin ar gyfer pysgod sy'n silio, megis brithyll, ac adar fel glas y dorlan, pibydd y dorlan a bronwen y dŵr.



Camau nesaf?

Bydd y cam nesaf yn cynnwys ffensio'r afon a phlannu coed ar hyd ei glannau gan gontractwr lleol i greu coridor bywyd gwyllt. Bydd hyn hefyd yn helpu i arafu llif dŵr wyneb i'r afon a sefydlogi'r glannau. Wrth i'r coed dyfu, mi fyddan nhw'n bwrw cysgod dros yr afon ac yn darparu lloches i bysgod ac adar, yn ogystal â helpu i reoli tymheredd y dŵr.

Am ragor o wybodaeth am y project, ewch i'n gwefan

Cyn ac ar ôl y gwaith adfer





Awyr Lân ar gyfer bywyd gwyllt Cymru

Erbyn hyn llygredd awyr yw un o brif achosion colledion mewn bywyd gwyllt a diraddio amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r Papur Gwyn Awyr Lân, sydd ar agor i ymgynghoriadau hyd 7 Ebrill, yn gyfle unigryw i gwtogi llygredd awyr dros fyd natur, yn ogystal â gwella iechyd pobl a'r hinsawdd. Fodd bynnag, credwn bod angen atgyfnerthu'r cynigion presennol yn sylweddol i osod targedau sy'n gyfreithiol orfodol, er mwyn mynd i'r afael ag allyriadau o amonia o ganlyniad i ffermio, a gwarchod ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau rhyfeddol Cymru.

Mae crynoadau o nitrogen adweithiol heb eu tebyg o'r blaen wedi crynhoi yn yr atmosffer, yn bennaf o ganlyniad i allyriadau o amonia (NH_3) o ganlyniad i ymarferion amaethu dwys ac allyriadau o nitrogen ocsid (No_x) o daniadau (o gludiant, diwydiant a ffynonellau eraill). Fe all nitrogen adweithiol gael ei ollwng yn agos at ei ffynhonnell neu fe all deithio ymhell iawn; mae hyn yn effeithio ar gynefinoedd bywyd gwyllt Cymru o dwyni tywod arfordirol i gopaon ein mynyddoedd. Mae allyriadau o amonia hefyd yn cyfrannu at ffurfiant mater gronynnol, sy'n niweidio iechyd pobl, ac mae cysylltiad agos rhyngddyn nhw ag allyriadau o ocsid nitrus a methan, y ddau yn nwyon tŷ gwydr.

Yng Nghymru, mae gan 88% o gynefinoedd bywyd gwyllt sensitif lefelau uwch o nitrogen na'r hyn allan nhw ei ddioddef, sy'n drysu cydbwysedd bregus yr ecosystem. Mae ychydig o rywogaethau gwydn o blanhigion yn ffynnu, ond nid yw dros dau draean o flodau gwyllt, yn ogystal â llawer o gennau a ffwng sydd mewn perygl, yn gallu goroesi o dan amodau uchel o nitrogen. Mewn achosion eithafol, mae allyriadau dwys o amonia yn peri i lysnafedd algaidd orchuddio cennau trawiadol fel barf y coed amrant llygad.

Er bod allyriadau o NO_x yn lleihau, mae allyriadau amonia wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar. Ffermio yw prif ffynhonnell allyriadau amonia – 91% yn 2017 – ond dim ond amcangyfrif o 5% o allyriadau fferm sy'n cael eu rheoli'n uniongyrchol. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi dibynnu'n bennaf ar weithredu gwirfoddol gan ffermwyr i dorri allyriadau, ond mae'r diffyg cynnydd yn dangos bod y dull hwn o weithredu wedi methu. Mae angen deddfwriaeth gref newydd drwy gyfrwng y Mesur Awyr Lân i fynd i'r afael â'r mater hwn yn effeithiol.

Mae Plantlife yn galw ar Aelodau'r Senedd i gefnogi Mesur Awyr Lân sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru:

- osod targedau ansawdd awyr ar gyfer pob prif lygrwr, yn cynnwys amonia ac ocsidau nitrogen; mae'r Papur Gwyn yn cynnig "Pwerau i osod targedau ansawdd awyr, yn cynnwys ar gyfer $PM_{2.5}$" yn unig.
- osod targedau ar gyfer lleihau gwaddodion nitrogen i gynefinoedd bywyd gwyllt sensitif Cymru.
- gyflwyno rheoliadau i dorri allyriadau amonia o ganlyniad i amaethu a ffynonellau eraill; dylid integreiddio hyn gyda Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol 2021, sy'n canolbwyntio ar leihau llygredd dŵr, yn ogystal â mesurau i leihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr.

Mae gwybodaeth bellach i'w chael ar wefan Plantlife yma ac os hoffech drafod y Papur Gwyn Awyr Lân, cofiwch gysylltu jenny.hawley@plantlife.org.uk



Cen barf y coed amrant llygad

Beth yw prosiect Pencampwyr Rhywogaethau Cyswllt Amgylchedd Cymru?

Mae'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn gytundeb rhyngwladol i warchod ein bywyd gwyllt gyda tharged i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Mae dull Cymru o reoli adnoddau naturiol drwy'r dull ecosystem - fel y'i hymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd - yn gorfodi diogelu rhywogaethau rhag colli cynefinoedd, llygredd a datblygiadau niweidiol. Trefnir Hyrwyddwyr Rhywogaethau gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'n chwaer Ddolenni yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Gofynnir i ASau - ochr yn ochr ag Aelodau yn Llundain, Yr Alban a Gogledd Iwerddon - i roi cymorth gwleidyddol i amddiffyn bywyd gwyllt sydd dan fygythiad. Drwy fod yn Bencampwr Rhywogaethau, gall Aelodau'r Senedd ddysgu oddi wrth aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru am y rhywogaethau, mynd ar ymweliadau safle i weld lle ceir hyd iddynt yn eu hetholaeth a dysgu am yr hyn sydd angen ei wneud i atal eu dirywiad. Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru isod yw'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect.